Casnewydd

Rhifyn Rhif 12
Tymor yr Haf 2017

Rhagorol

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn un anhygoel o lwyddiannus i ni fel Ysgol. Mae'r diolch am hynny i lawr i'r tîm anhygoel o staff sydd gennym yn yr Ysgol, eich cefnogaeth di-flino chi fel rhieni, llywodraethwyr cefnogol – ac wrth gwrs y plant gorau yn y byd i gyd! Roeddwn mor falch o weld bod Estyn wedi nodi cryfder ein gwaith tîm, ac yn sicr, ni allaf wneud fy swydd heb fewnbwn aruthrol holl rhanddeiliaid yr Ysgol. O waelod calon…diolch! I rhai ohonnoch, daeth diwedd cyfnod fel rhieni a phlant yr Ysgol hon a mawr gobeithiaf y byddwch yn ein cofio ni yma gyda gwên ar eich wynebau. Diolch, Mrs Parry

Un teulu ydyn ni!

Cynhaliwyd Ffair Haf lwyddiannus ar nos Iau y 29ain o Fehefin. Roedd y plant wedi bod wrthi drwy'r wythnos yn creu pethau i werthu yn y Ffair ac roedd y côr wedi canu'n hyfryd. Codwyd £3000 i'n hysgol a diolch o galon i Fanc Barclays am eu rhodd hael. Diolch i bawb wnaeth helpu i sicrhau ei fod yn Ffair lwyddiannus unwaith eto a diolch arbennig i Rachael Harmes am ei gwaith di flino yn arwain Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol.

Meithrin

Rydyn ni wedi dwli ar en prosiect 'Anifeiliai'd tymor hyn. Dysgon ni am gylch bywyd y broga a phili pala, anifeiliad y jyngl a chawson ni ymweliad gan Chris o'i Sioe 'Nearly Wild'. Daeth Chris ag amrywiaeth o anifeiliaid i ni ddal a dysgodd e nifer o ffeothiau diddorol am yr anifeiliaid.

Io ho ho!

Derbyn

Cafodd y Derbyn eu hymosod gan fôr ladron! Cafon nhw llythyr i ddweud fod trysor wedi eu cuddio yn yr ysgol yn rhywle felly roedd yn rhaid iddyn nhw fynd ar helfa drysor trwy'r ysgol, y waun wyllt a'r ardal ganol gan ddilyn cliwiau ac yn y diwedd fe ddaethon nhw o hyd i gust llawn arian siocled yn y tywod! Roedd llawer o dasgiau i'w cwblhau fel adeiladu llong môr ladron, ysgrifennu llythyr mewn potel, peintio parot, disgrifio môr leidr, sgwrs ffon rhwng capten y llong a môr leidr, creu map ac addurno trysor. Cafon ni barti mor lardon hefyd! Llawer o hwyl a sbri!

Blwyddyn 1

Y Byd Gwaith

Beth hoffech chi wneud fel swydd yn y dyfodol? Person trin gwallt? Perchennog busnes? Nyrs? Heddlu? Cafodd blwyddyn 1 y cyfle i ddysgu am y gyrfaoedd yma. Yn ogystal, darganfyddon ni pa sgiliau sydd eu hangen er mwyn gwneud y swyddi yma e.e. gweithio mewn tîm, rheoli amser a chyfathrebu. Roedd creu busnes o ddim yn llawer o hwyl; rhwng trafod syniadau o ba gynnyrch i werthu, dylunio, hysbysebu ac yna gwerthu yn y Ffair Haf. Mi wnaethon ni mwynhau'r broses gyfan, ond gwneud a chreu'r cynnyrch oedd hoff rhan bawb.
Cyfrifon ni ein bod wedi gwneud elw o dros £60 ac roedden ni yn falch iawn. Er hyn, ar ôl rhywfaint o werthuso llym, rydym yn gwybod yn union sut y byddwn yn gwella'r flwyddyn nesaf er mwyn gwneud mwy o elw ar gyfer ein busnes.

Pob dim ffyn

Blwyddyn 2

Beth fyddwch chi'n gwneud gyda'ch ffyn lolipop eleni? A wyddoch chi fod modd creu andros o wahanol gynnyrch gan ddefnyddio ffyn lolipop? Syniad plant blwyddyn 2 oedd mynd ati i gynllunio fframiau llun pert, magnedau oergell a matiau diod gan ddefnyddio ffyn lolipop (o rai oedd yn dilyn thema "Minions" i gathod).

Y cam cyntaf oedd ymweld ag athrawon yr ysgol gyda holiadur er mwyn darganfod pa gynnyrch fydd yn gwerthu yn y ffair haf. Ar ôl gweithio'n galed yn ffatri blwyddyn 2 roedd hi'n amser i greu ein hysbysebion a phosteri er mwyn denu llygaid draw i'n stondin.

Blwyddyn 3

Dŵr, dŵr, dŵr a mwy o ddŵr
Rydyn ni wedi bod yn edrych ar fywyd natur a bywyd y pwll dŵr. Rydyn wedi dipio dŵr ym mhwll dŵr yr ysgol ac wedi edrych ar amrywiaeth o gynefinoedd o amgylch yr ysgol. Yn ein gwersi Llythrennedd rydyn wedi edrych ar lyfr Bog Baby ac wedi creu creadur dychmygol ein hunain ar gyfer y pwll dŵr. Cawson ni hwyl ar ein ymweliad i'r gwlyptiroedd yng Nghasnewydd gan ddipio dwr ac edrych am greaduriaid bach.

I gyd-fynd gyda ein thema dŵr, yn ystod tymor yr haf aethon ni am wersi nofio am dair wythnos. Fe wnaeth pawb fwynhau a datblygu eu hyder a sgiliau nofio.

Blwyddyn 4 **Dirgelwch y Goedwig**

Cafodd Blwyddyn 4 diwrnod i gofio pan ddaeth Natalie Waller, Swyddog Bio-amrywiaeth y Cyngor, mewn i'r ysgol i wneud gweithgareddau'r goedwig. Buon nhw yn chwilio am bryfed ac yn ceisio adnabod y coed gwahanol gan ddefnyddio allwedd dail. Gweithiodd y plant mewn grwpiau bach er mwyn hybu'r sgil o weithio gydag eraill. Mwynheuon nhw mas draw!
Mae'r plant wedi darganfod ystlum bach wedi cwympo mewn nyth aderyn wrth ddarllen Serenola.

Year 5 Blwyddyn 5
Dydd Iau Oren
Hoffai blwyddyn 5 ddiolch i bawb oedd wedi cefnogi nhw yn ystod y diwrnod oren. Cafn ni lawer o hwyl yn gwerthu cacennau, diodydd, breichledi a llawer mwy. Yn ogystal i hyn, roedden ni wedi cyflawni her feicio noddedig o 50 km. Bydd yr arian yn mynd at warchodfa hen wŷr y coed ym Moron. Mae hen wŷr y coed ân agos iawn at ddiflannu o wyneb y ddaear ar ôl i dân enfawr ddinistrio eu cynefin. Mae'r warchodfa yn dysgu'r hen wŷr y coed ifanc sut i oresgyn yn y goedwig cyn iddyn nhw gael eu rhyddhau i'r gwyllt.

PARTI'R 40au!

Blwyddyn 6
Aeth Blwyddyn 6 ar daith yn ôl i adeg yr Ail Ryfel Byd a chawson ni barti 40au ar gaeau'r ysgol. Cafwyd amser arbennig gan bawb ac fe wenodd yr haul trwy'r prynhawn. Roedd y plant(a'r athrawon!) wedi bod yn brysur yn paratoi cacennau moron yn ystod y bore. Ym ystod y dydd, mwynheuwyd amrywiaeth o weithgareddau megis ras wy a llwy, a ras berfa a chafwyd lluniau yn y bwth lluniau. Diwrnod yn llawn hwyl a dawnsio i gerddoriaeth y 40au. Yr unig peth a ddaeth i ddifetha'r hwyl oedd y seiren cyrch awyr a oedd yn bloeddio pob hyn a hyn. Erbyn diwedd y dydd roedd y plant yn gallu darganfod cysgod mewn eiliadau, nifer yn y gysgodfan Anderson a rhai yn ddyfeisgar yn mynd i'r llwyni!

Hwyl Fawr Blwyddyn 6!

Byddwn yn drist iawn i ffarwelio â Blwyddyn 6 a dymunwn bob lwc i bawb wrth iddynt symud i Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, Ysgol St Joseph's ac Ysgol Caerleon. Mae rhai disgyblion wedi paratoi eu hatgofion o'u hamser yn Ysgol Gymraeg Casnewydd yn arbennig ar gyfer ein rhifyn olaf.

Dwi'n cofio fi ac Allisha yn gwisgo i fyny fel tywysogesau pan oedden ni yn nosbarth Bili Bom Bom. (Freya)

Pan aethon ni i Gilwern ac i canwio roedd fi, Lillie a Shkayla bron wedi cwympo i fewn. (Amelia)

Rwy'n cofio bod yn angel yn y sioe Nadolig pan oeddwn i yn mlwyddyn 2. Roeddwn i'n caru bod yn angel. (Shanay)

Yn Gilwern pan oedden ni yn cerdded yr afon dwedodd Mrs Davies " Os wyt ti yn mynd o dan y boncyff rydw i'n fodlon mynd hefyd. Aeth Mrs Davies yn gyntaf ond doeddwn i ddim yn fodlon dilyn hi! (Eva)

Ar y diwrnod 40au roeddwn i ,Gracie, Ruby Evelyn a Ffion yn dawnsio a troelli o gwmpas ac yn cwympo ar y llawr. (Cerys)

Pan oeddwn i yn y Derbyn roedd Mrs Phillips wedi rhoi gwisg hwyaden i fi. Roedd e mor enfawr doeddwn i methu symud yn y gwisg. (Max)

Roeddwn i wedi mwynhau gwneud achos llys y Tri Mochyn Bach. Fi oedd tad y moch bach drwg. (Finley)

Rydw i'n cofio chwydu dros Miss Cutts. Druan a Miss Cutts. (Alfie)

Pan oeddwn i ym mlwyddyn 5 roeddwn i'n bwyta cinio. Roedd Eva yn cerdded heibio gyda dŵr. Cwmpais i nôl a bwrw i fewn i hi ac roedd y dŵr wedi cwympo ar fy mhen. (Erin)

Ar y diwrnod 40au pan roedd y seiren yn canu roedd pawb yn neidio o dan y blancedi i guddio. (Damari)

Ym mlwyddyn 1 dwi'n cofio doeddwn i byth yn stopio siarad am Spiderman. (Livvy)

Pan oeddwn i ym mlwyddyn 3 cwympais i ffwrdd o fy nghadair a glanies i mewn siâp seren. (Katy)

Ym mlwyddyn 6 pan oedd yn wythnos gyrfaoedd roedd fi, Allisha a , Freya a Ruby Alpin wedi creu pont arbennig allan o bapur. (Hannah)

Llwyddiant Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i Evelyn O'Hara a Celyn Marshell am ddod yn gyntaf yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft Eisteddfod Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elai yn Mis Mai. Artistiaid y dyfodol!

Ysgol yr Wythnos

Roedd yr ysgol yn 'Ysgol yr wythnos' yn y South Wales Argus ym mis Mehefin. Mae dal rhai copïau ar ôl yn y swyddfa os ydych chi eisiau copi.

Learning roots and looking ahead

SCHOOL

Ymweliad Elin Fflur

Ar ddydd Gwener 7fed o Orffennaf cawsom ymweliad arbennig gan Elin Fflur. Canodd hi rhai o ganeuon mwyaf poblogaidd a buodd yn arwyddo llofnodion i'r plant. Roedd y plant ac athrawon mor gyffrous- yn enwedig Miss Davies!

Wythnos Gyrfaoedd

Daeth nifer o ymwelwyr i'r ysgol ar y 19 eg i'r 23 ain o Fehefin i siarad i'r plant am eu swyddi. Roedd y plant wir wedi mwynhau clywed Am waith yr heddlu, nyrs, menyw trin gwallt, busnes timber,Coleg Gwent,hyfforddwr chwaraeon . Diolch i bawb wnaeth rhoi eu hamseri ddod i siarad â'r plant i sicrhau fod y diwrnodau hyn yn rhai llwyddiannus.

Cornel y Campau

Cornel y Campau

Gorffennodd y tîm rygbi ar uchafbwynt gyda twrnament 7 pob ochr yn Saracens casnewydd. Ar ôl dechrau araf tynodd y tîm ati gilydd I chwarae rygbi deiniadol trwy gysylltu yn effeithiol gydag arddangosiad gwych o basio a rhedeg. Daeth yr amddiffyniad yn gryfach gyda Morgan Jones a Callum ford yn taclo'n wych. Llwyddon nhw i ennill sawl gêm yn erbyn Lliswery, Marshfield ac yn olaf Charles Williams. Roedd hi'n gêm gyffrous gyda Damari Hanblin yn sgorio cais o 50m.

Y sgôr derfynol oedd gêm gyfartal ond chwaraeodd y bois yn dda iawn. Hoffwn i ddweud diolch mawr i'r mamau a tadau a mamgu's a tadcu's a sicrhawyd bod y bechgyn yn mynychu pob gêm a thwrnament yn ystod y tymor a diolch mawr i Huw Jones am hyfforddi yn ystod y tymor..

Llongyfarchiadau i dîm athletau ar eu llwyddiant yn Wŷl Athletau Casnewydd ym Mis Mehefin. Sgoriodd y merched nifer fwyaf o bwyntiau o'r timau merched a daeth y ddau dîm ras gyfnewid yn 2il ac ennillon nhw'r tarian ras gyfnewid.

Llongyfarchiadau i Katy French a ennillodd y 200m a Damari Hanblin a Hannah Sully a ddaeth yn 2il yn y ras 100m. Dyma rai o lwyddiannau eraill.

Zia Blanks – 3ydd naid hir

Alfie Harmes – 6edd discus

Erin James – 5ed Naid drifflyg

Shanay Sansome – 6ed Naid drifflyg

Roedd yr ymdrech a ddangoswyd gan rai o'r plant yn rhagorol. Cwympodd rhai plant wrth groesi'r linell derfyn. Mae'r ysgol yn hynod o filch o'r ffordd roedd y plant yn rhoi cymorth i'w gilydd ac yn longyfarch eu llwyddiannau. Diolch bawb.

Unwaith eto, diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu'r Ffair a'r gweithgareddau trwy gydol y tymor, yn ogystal â chyllido argraffiad y papur hwn. Os hoffai unrhyw un ddod yn aelod o'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, mae ffurflenni cofrestru ar gael yn y swyddfa .. Cofiwch fod yr holl arian a godir yn mynd yn ôl i gefnogi eich plant a'u haddysg!